CYLCHGRAWN UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

# Yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Rhifyn Gorffennaf 26

Mae hi’n ddiwedd tymor ac felly’n gyfle i edrych yn ôl ar yr hyn a fu a’r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf a hefyd yn gyfle i edrych ymlaen at flwyddyn newydd.

## CYNHADLEDD 2026 NANT GWRTHEYRN






## DOD I ADNABOD

### YR IS-LYWYDD NEWYDD

### GUTO JONES

2 Tâl aelodaeth
3 Cynigion y Gynhadedd
5 Dod i adnabod yr Is-Lywydd
7 Deallusrwydd Artiffisial

# TÂL AELODAETH

Rydym i gyd yn ymwybodol fod prisiau pob dim codi ac yn sgil costau cynyddol, yn anffodus, bu'n rhaid i'r Cyngor Cenedlaethol wneud penderfyniad anodd ond anorfod i godi tâl aelodaeth UCAC.
Yn wyneb y cynnydd hwn, mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r canlynol:

- mae tâl aelodaeth UCAC yn gystadleuol iawn ac nid oes gan UCAC danysgrifiadau 'lleol' ychwanegol, fel sydd gan rai undebau
- ni fydd tâl aelodaeth UCAC yn codi eto yn ystod y flwyddyn academaidd (bydd rhai undebau eraill yn codi eu tâl aelodaeth ym mis Ionawr)
- UCAC yw'r unig undeb sy'n cynnig ei holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mae UCAC yn cynnig gwasanaeth personol, cyfeillgar a chyflym

Mae'r tabl ar y dde yn nodi'r tâl misol newydd o fis Medi 2026 ymlaen yn ôl categori aelodaeth:

| Categori Aelodaeth | Tâl Misol (yn daladwy ar ddiwrnod gwaith cyntaf pob mis) |
|---|---|
| Llawn Amser | £20.32 |
| 0.7-0.99 | £17.02 |
| 0.4-0.69 | £14.06 |
| 0.39 neu lai | £11.34 |

## O NERTH I NERTH

**Arian parod am gyflwyno aelodau newydd**

Am bob aelod y llwyddwch i'w recriwtio i **UCAC**, byddwch chi a'r aelod newydd yn derbyn **£25** yr un.

**Ni ellir manteisio ar y cynnig hwn ar y cyd ag unrhyw gynnig ymaelodi arall.*

£25 £25

**Manteisiwch ar y cyfle!**

**Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth:**
ucac@ucac.cymru | 01970 639950

## COFIWCH DDIWEDDARU EICH MANYLION!

- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- E-bost
- Oriau gwaith
- Lleoliad gwaith

Mae cadw eich manylion yn gyfredol yn golygu ein bod yn gallu parhau i'ch cefnogi.

*Diweddarwch eich manylion heddiw!*
**01970 639950**
**aelodaeth@ucac.cymru**

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

*Mewn Undeb Mae Nerth!*

## ABSENOLDEB MAMOLAETH, TADOLAETH A RHIANT A RENNIR

Cofiwch ein bod yn cynnig **AELODAETH HANNER PRIS** yn ystod cyfnod o Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth/Rhiant a Rennir os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol.

Er mwyn manteisio ar y cynnig hwn, mae'n angenrheidiol eich bod yn rhoid gwybod i ni:

**aelodaeth@ucac.cymru** **01970 639950**

***Nid yw UCAC yn cynnig ad-daliad os nad ydych wedi ein hysbysu o'r newid o flaen llaw.***

# CYNIGION Y GYNHADLEDD

Eleni, cyflwynwyd 35 o gynigion yn Llawlyfr y Cynadleddwyr a chafwyd un cynnig brys a gyflwynwyd fore Sadwrn.

Ymhlith y materion a drafodwyd, mae'r canlynol:

## DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

Mae'r dechnoleg newydd yn cynnig her gwirioneddol i staff a dysgwyr fel ei gilydd. Ni allwn osgoi y datblygiadau newydd, ond mae angen mynd i'r afael â'r heriau hyn cyn gynted â phosibl a sicrhau bod staff a dysgwyr yn gallu defnyddio'r dechnoleg hon er budd iddynt hwy ac er budd addysg.

## TGAU NEWYDD

Mae ysgolion eisoes wedi dechrau cyflwyno cyrsiau TGAU newydd, gwneud i Gymru, ond mae rhai problemau wedi codi o ran llwyth gwaith a threfniadau gweinyddu. Bydd meysydd llafur terfynol cyrsiau Ton 3 Gwneud i Gymru yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi eleni. Trafodwyd statws cyrsiau galwedigaethol a pha mor hwylus yw eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Gynhadledd.

## LLYTHRENNEDD

Sut mae sicrhau bod safonau llythrennedd Cymru gyda'r gorau yn fyd-eang? Un elfen bwysig yw annog rhieni i ddarllen gyda'u plant.

## MAINT DOSBARTHIADAU

Gydag ysgolion yn wynebu mwy a mwy o heriau cyllidol, mae meintiau dosbarthiadau yn cynyddu a hyn yn ei dro yn cyfrannu at broblemau ymddygiad ac yn y pendraw yn cael effaith ar ddenu a chadw athrawon. Ar hyn o bryd, nid oes uchafswm i nifer y dysgwyr mewn dosbarthiadau (ac eithrio mewn dosbarthiadau derbyn). Mae'n anodd credu hyn ac yn sicr nid yw'n gwneud dim i wella safonau addysg.

## DENU A CHADW ATHRAWON

Sut mae denu mwy o addysgwyr i fyd addysg? Yn sicr mae angen gwella amodau athrawon. Roedd nifer o'r cynigion yn trafod materion cysylltiedig â hyn, er enghraifft – yr angen i gael mwy o hyblygrwydd, sicrhau nad yw athrawon yn gorfod cyflawni dyletswyddau y tu hwnt i ofynion eu swydd.

## BWYD YSGOL

Roedd y ffeithiau a ddatgelwyd yn ddiweddar ynghylch ffynhonnell cig a bwyd ysgol yn gyffredinol yn peri pryder.Cafwyd cynnig a oedd yn pwysleisio'r angen i sicrhau fod bwyd ysgol yn fwyd lleol.

### I DDARLLEN Y CYNIGION YN LLAWN, DILYNWCH Y DDOLEN:

**CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU**














# Dod i adnabod yr....

# IS-LYWYDD NEWYDD

**Enw**: Guto Jones

**Man gwaith:** Dw i'n gweithio yn rhannol yng nghampws Bangor Coleg Menai ac yn rhannol yng nghampws Pwllheli Coleg Meirion Dwyfor.



**Pynciau rydych yn eu dysgu neu gyfrifoldebau o fewn y coleg:** Busnes ac economeg. Rydw i yn dysgu ychydig o deithio a thwristiaeth, hefyd.

**Hoff ddiddordebau:** Dw i'n hoff o wylio a chwarae dartiau, yn ogystal â manteisio ar awyr iach drwy wneud ychydig o gerdded yma ac acw. Rydw i yn mwynhau darllen, hefyd.

**Hoff le yng Nghymru a pham:** Cwestiwn anodd!Dw i'n hoff o Benrhyn Gŵyr a'r Gogarth yn Llandudno. Ond fel un o bentref Bontnewydd yn sir Gaernarfon, dw i'n credu mai'r Foryd yn Llanfaglan yw fy hoff le yng Nghymru. Bae tonnau yw'r Foryd, sy'n cynnig golygfeydd o Fae Caernarfon, Yr Wyddfa, Mynydd Mawr a Moel Eilio. Mae'n bosibl mynd yno unrhyw adeg o'r flwyddyn a gweld rhywbeth diddorol.

**Byw neu farw – pwy fuasech chi'n hoffi cwrdd i gael sgwrs dros baned?** Fy Anti Nerys. Mi gefais gyngor a gofal da ganddi cyn iddi ein gadael. Halen y ddaear.

**Y perfformiad gorau i chi ei weld, neu'r llyfr gorau i chi ei ddarllen:** 'The Wealth of Nations' gan Adam Smith. Y llyfr economeg cyntaf i'w argraffu.

**Pe baech yn cael newid un peth yn system addysg Cymru, beth fyddai hwnnw?** Mwy o gyfleoedd i ddysgwr ddysgu o'r byd go iawn - fel profiad gwaith, siaradwyr gwadd ac ymweliadau ayyb. Dw i'n aelod o'r 'Economics, Business and Enterprise Association' ers sawl blwyddyn, ac yn y broses o ysgrifennu erthygl i'w cylchgrawn tymhorol ar y dull dysgu hwn.

**Pam ydych chi'n hapus i fod yn is-lywydd UCAC?** Rydw i yn falch i allu gwasanaethu UCAC mewn unrhyw ffordd. Fel pob aelod UCAC rydw i wedi elwa o waith yr undeb dros y blynyddoedd. Roedd yn anrhydedd derbyn enwebiad i fod yn is-lywydd.

# ANERCHIAD YR YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

**CROESO**

Wrth groesawu'r cynadleddwyr, nododd Ioan Rhys Jones pa mor braf oedd hi i ddychwelyd, ar ôl cyfnod o wyth mlynedd, i Nant Gwrtheyrn, man allweddol bwysig yn y frwydr i gynnal yr iaith Gymraeg fel iaith pob dydd. Dywedodd hefyd ei fod yn braf gweld brwdfrydedd aelodau Cymdeithas Sir Gwynedd, wrth i'r Gynhadledd ddod i'w rhanbarth nhw a bod hyn yn cadarnhau pwysigrwydd symud y Gynhadledd o le i le yn flynyddol.

**LLYWYDD AC IS-LYWYDD**

Diolchwyd i Sara Edwards am ei hegni a'i hymroddiad yn ei gwaith fel Llywydd yr Undeb am y flwyddyn 2025-2026 ac estynnwyd llongyfarchiadau i Rhun Llwyd, wrth iddo gael ei urddo yn y Gynhadledd yn Llywydd yr Undeb am 2026-2027. Nodwyd bod cyfraniad Rhun at waith yr Undeb hyd yma yn argoeli'n dda ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac yntau wedi bod yn cynnig geiriau ac arweiniad doeth wrth drafod yn y Cyngor ac yn y Gynhadledd. Wrth longyfarch a dymuno'n dda i Rhun, diolchwyd i Gyngor Sir Ceredigion a Gareth Evans, Pennaeth Bro Teifi am eu parodrwydd i'w ryddhau am ddeuddydd yr wythnos i gyflawni gwaith yr Undeb.

**DIOLCH**

Mynegwyd diolch diffuant i'r sawl fu'n trefnu a pharatoi ar gyfer y Gynhadledd, yn enwedig i Gwenno, y Swyddog Aelodaeth am ymgymryd â threfniadau'r Gynhadledd yn ystod yr wythnosau olaf, yn dilyn ymadawiad Nia o gyflogaeth UCAC. Bu Mererid hefyd yn gefn mawr wrth ymwneud â threfniadau manwl y Gynhadledd, yn ogystal â'i chefnogaeth gyffredinol fel Is-Ysgrifennydd Cyffredinol. Diolchwyd i bob aelod o'r tîm am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Swyddogion Maes mor brysur ag erioed ac er bod y tîm Swyddogion Maes wedi lleihau o ran nifer, maent yn parhau i gynnig cefnogaeth lawn.




Mae'r newidiadau mewn patrymau gwaith yn golygu nad y Swyddog Maes penodol o ran daearyddiaeth sydd bob amser yn ymateb i ymholiadau aelod, ond gobeithir mai cryfder yw hynny wrth i bawb elwa ar arbenigedd amrywiol y Swyddogion Maes.
Mynegwyd diolch hefyd i'r tîm gefn llwyfan, y mae eu gwaith mor allweddol i rediad yr Undeb. Dywedwyd bod cynlluniau cyffrous ar y gweill i benodi Uwch-Swyddog Gweinyddol i ymuno â'r tîm, penodiad a fydd, gobeithio, yn sicrhau rhediad mwy effeithiol i'r Undeb ac yn ei dro yn gwella ymhellach y gwasanaeth i aelodau.
Diolchwyd hefyd i'r Trysorydd Cenedlaethol am ei waith yn sicrhau bod yr Undeb ar seiliau ariannol cadarn.

**FFARWELIO**

Talwyd teyrnged i ddau aelod o staff a ymadawodd o'u cyflogaeth ag UCAC yn ddiweddar, sef Nia Evans (Swyddog Cyfathrebu) ac Ywain Myfyr (Swyddog Maes Cynorthwyol).

**HERIAU**

Nododd Ioan fod y misoedd nesaf yn sicr yn mynd i fod yn heriol. Cynhaliwyd y Gynhadledd gwta fis cyn yr Etholiad Cyffredinol, etholiad oedd â'r potensial o greu daeargryn yng Nghymru. Heriodd y Cynadleddwyr ac aelodau UCAC yn gyffredinol i bleidleisio a gweithredu er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer ein hysgolion, ein plant, ein cymunedau, ein hiaith a'n gwlad.

**AC I GLOI**

Daeth yr anerchiad i ben gyda gair o ddiolch i'r cynadleddwyr oll am eu brwdfrydedd a'u gweithgaredd i sicrhau bod seiliau cadarn i weithgarwch yr Undeb am y flwyddyn i ddod a bod polisïau'r Undeb yn glir.Nododd fod y Gynhadledd yn gyfle gwych i aelodau ddod at ei gilydd ac unwaith eto, atgoffwyd pawb o'r geiriau allweddol, sef mai 'Mewn undeb mae nerth!'

CLICIWCH YMA I DDARLLEN TRAWSGRIFIAD LLAWN O ANERCHIAD YR YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL.

# SIARADWR Y GYNHADLEDD:

# DARON HARRIS



## DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL – YR HERIAU, Y CYFLEOEDD...



Athro a chanddo dros ugain mlynedd o brofiad o addysgu mewn ysgol uwchradd yw Daron Harris ac yn un sydd wedi meithrin arbenigedd dwfn mewn Cyfrifiadureg, Deallusrwydd Artiffisial. Mae ganddo brofiad hefyd mewn arwain prosiectau cymunedol sy'n cysylltu technoleg yn ymarferol â Chwricwlwm Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Daron yn Ymgynghorydd Addysg Digidol gyda STEM Learning ar y rhaglen 'Addysgu Digidol gyda Hyder' ac yn cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, gan feithrin hyder a dealltwriaeth ymarferwyr o gyfrifiadureg a datblygu sgiliau digidol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae'n amlwg bod y dechnoleg newydd yn datblygu ar gyflymder ac y dylem fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf. Mae'n werth cofio fod hyfforddiant y rhaglen Addysgu Digidol gyda Hyder am ddim i athrawon Cymru. Ewch i'w wefan https://www.stem.org.uk/addysgu-digidol-gyda-hyder i gael mwy o wybodaeth am y cyrsiau ac i archebu lle ar gwrs addas ar gyfer eich anghenion chi.





# URDDO SWYDDOGION
## LLYWYDD - RHUN LLWYD




Yn ystod ei araith, mynegodd Rhun cymaint o fraint a phleser oedd cael ei urddo'n Llywydd UCAC am y flwyddyn 2026-27. Nid ym myd addysg y dechreuodd Rhun ei yrfa, ond yn y diwydiant telathrebu, gyda chwmni ASCOM o'r Swistir. Mae'n dal i werthfawrogi'r profiadau a gafodd a'r ffrindiau a wnaeth yn ystod ei gyfnod yn y maes hwn ac yn teimlo bod y wybodaeth a'r sgiliau a enillodd yn y diwydiant yn dal yn ddefnyddiol iddo heddiw.

Ymhen amser, daeth heriau i wynebu llawer o gwmnïau tebyg i ASCOM ac yn ystod y cyfnod heriol hwnnw, penderfynodd Rhun newid gyrfa a mentro i fyd addysg. Roedd ei rieni ac aelodau eraill o'r teulu eisoes yn athrawon neu'n ddarlithwyr, felly roedd camu i yrfa ym myd addysg yn gam naturiol iddo, fel roedd ymaelodi ag UCAC. Mae e bellach yn athro ac yn aelod o UCAC ers dros ugain mlynedd.

Mae'n ddiolchgar i'r athrawon hynny a fu'n ei fentora yn ystod ei gyfnod ymarfer dysgu – pobl fel John Petty yng Nglantaf a Rhys Roberts ym Mhlasmawr, a roddodd brofiadau, gofal a mentora anhygoel iddo a wnaeth ei baratoi ar gyfer ei yrfa ym myd addysg.
Nid cam hawdd oedd gadael Caerdydd ar ddiwedd ei hyfforddiant a dechrau ar ei swydd gyntaf yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Powys. Ond cafodd groeso cynnes iawn gan yr ysgol a'r gymuned ym Maldwyn a dod i arfer yn raddol â'r dafodiaith unigryw a threuliodd flwyddyn gofiadwy yn y Canolbarth. Fodd bynnag, dychwelyd i'r de wnaeth Rhun a chael y cyfle i sefydlu cyrsiau technegol newydd, drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, yr ail ysgol uwchradd Gymraeg i gael ei hagor yn y ddinas, diolch i waith dygn Heini Gruffudd a Rhieni Dros Addysg Gymraeg. Yma eto, gwnaeth ffrindiau da gyda staff, gan gynnwys Roger Williams, un a oedd yn driw iawn i UCAC. Yn ystod y cyfnod ym Mryn Tawe, bu Rhun yn ffodus i gael mynd gyda'r ysgol i sgïo ac ar deithiau cyfnewid i Ffrainc. Teimla fod mwy i addysgu na bod yng nghwmni disgyblion o fewn y dsobarth. Mae treulio amser gyda nhw yn allgyrsiol yn rhoi cyfle gwerthfawr i rannu profiadau newydd, bythgofiadwy gyda rhai disgyblion nad ydynt wedi bod ymhell o'u milltir sgwâr o'r blaen.

Ar ôl cyfarfod â'i bartner Bethan, symudodd Rhun i bentref Talog, sef y pentref lle magwyd Bethan. Maent wedi ymgartrefu yma ac yn mwynhau ffermio ar fferm sy'n cynnwys moch, defaid, gwartheg a dau gi. Wedi symud i'r gorllewin, roedd hi ond yn nautriol i Rhun chwilio am swydd yn nes at ei gartref. Yng nghanol y pandemig, daeth cyfle i ymgeisio am swydd yn Llandysul. Bu'n llwyddiannus ac ar ôl pymrtheng mlynedd ym Mryn Tawe, dechreuodd Rhun ddysgu yn ei hen ysgol (ar ei newydd wedd). Roedd Ysgol Dyffryn Teifi, lle derbyniodd ei addysg uwchradd, wedi cau erbyn hyn ac Ysgol Bro Teifi wedi ei sefydlu ac wedi agor mewn adeiladau newydd sbon.



A hithau'n ardal wledig ac amaethyddol, yn naturiol roedd diddordeb mawr gan ddisgyblion yn y moch a'r defaid a gadwai eu hathro ar y fferm gartref a bu cryn gynnwrf yn yr ysgol pan ymddangosodd Rhun a Bethan ar y rhaglen 'Cefn Gwlad'. Prin y gallai Rhun ei hun goelio ei fod yn destun rhaglen 'Cefn Gwlad'!

Un o'r pethau sy'n amlygu ei hun yn ei waith o ddydd i ddydd yw effaith Covid ar ddysgwyr, hyd yn oed mewn ardal wledig ac mae wedi sylwi fod iechyd meddwl, cyrhaeddiad a Chymreictod yn dioddef yn sgil y pandemig. Ni ellir beio'r pandemig yn llwyr am y pethau hyn, mae ffactorau eraill megis y cyfryngau cymdeithasol a'r defnydd o ffonau symudol hefyd wedi cyfrannu at y problemau hyn.  Fodd bynnag, mae datblygiadau diweddar yn Ysgol Bro Teifi a'r defnydd o waledi cloëdig ar gyfer ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol wedi bod yn llwyddiannus,  a'r buddsoddiad yn werth pob dimai, yn ôl Rhun.

Nid ffonau symudol yn unig sy'n cynnig heriau i ysgolion, ond cyfeiriodd Rhun hefyd at destun prif siaradwr y Gynhadledd hefyd, sef Deallusrwydd Artiffisial. Cyfeiriodd Rhun at lyfr y byddai'n werth i bawb ei ddarllen, sef 'Nexus' gan Yuval Noah Harari, llyfr sy'n gosod allan yn glir sut mae'r cam mawr presennol mewn technoleg wedi digwydd a sut mae'n wahanol i unrhyw ddatblygiadau technolegol eraill, er enghraifft y we, y wasg argraffu neu hyd yn oed ysgrifennu. Mae'r dechnoleg hon yn dechnoleg lle nad oes unrhyw hunan wirio clir na dim atebolrwydd.Mae oblygiadau i addysgwyr yn hyn o beth, wrth iddi fynd yn gynddol anos i wahaniaethu rhwng gwaith dysgwr a gwaith wedi ei gynhyrchu gan AI, her y mae ysgolion ledled y wlad yn ei hwynebu.

Tystia Rhun fod UCAC wedi bod yn gefn, yn llais ac yn gynrychiolydd iddo ef, ei gyd-aelodau, ei gydweithwyr a'i deulu dros y degawdau. Wrth ymuno â'r proffesiwn, roedd ymuno ag UCAC yn beth cwbl naturiol a naturiol hefyd oedd bod yn weithredol o fewn yr Undeb, gan fynychu cyfarfodydd ysgol a sirol. Roedd y cyfarfodydd undebol hynny yn gyfle i glywed safbwyntiau eraill, i ddysgu am ymgyrchoedd yr Undeb, yn gyfle i ollwng stêm a hefyd i gael hwyl.  Cafodd fudd hefyd o fynychu cynadleddau blynyddol yr Undeb, gan wrando'n astud ar drafodaethau a chynigion, a phwyso a mesur safbwyntiau gwahanol. Er nad yw wedi cytuno â phopeth sydd wedi ei basio ac nad oedd bob amser yn deall popeth oedd yn digwydd yn ei gynadleddau cyntaf, eto gydag amser a phrofiad, mae wedi dod i elwa fwyfwy o'i brofiadau yn y cynadleddau.  Mae ei ymwneud cyson â'r Undeb wedi peri iddo sylweddoli yr holl waith sydd yn digwydd o fewn yr Undeb, a hynny yn aml y 'tu ôl i'r llenni'.




Y tu allan i'r ysgol, mae Rhun yn brysur ar y fferm, ond hefyd yn ymlacio drwy baragleidio.Mae'n cael profiadau unigryw iawn yn yr awyr ac yn mwynhau gwerthfawrogi golygfeydd a thirwedd godidog Cymru o'r awyr wrth iddo hedfan o gwmwl i gwmwl. Mae'n dweud fod cael rhannu'r awyr gyda barcutiaid coch, filoedd o droedfeddi uwchlaw'r ddaear yn wefreiddiol.

Dymunwn yn dda iawn i Rhun wrth iddo ddechrau ar ei gyfnod yn Llywydd UCAC ym mis Medi 2026.

# PROFIADAU CYNHADLEDDWYR NEWYDD

## BETHAN DAVIES

Roedd mynychu fy nghynhadledd gyntaf gyda'r undeb addysgu UCAC yn Nant Gwrtheyrn fel camu i mewn i fyd cudd wrth fynd lawr y lôn droellog; un lle'r oedd datblygiad proffesiynol, cymuned a thirwedd Cymru yn cydblethu'n esmwyth. Wedi'i nythu rhwng y mynyddoedd a'r môr, gosododd y lleoliad ei hun y naws: tawel, croesawgar ac ysbrydoledig. Yr oedd yn gefndir perffaith ar gyfer cyfarfod gydag addysgwyr sy'n ymroi'n ddwfn i'w gwaith.

Fel mynychwr am y tro cyntaf, nid oeddwn yn siwr beth i'w ddisgwyl i ddechrau. Llifai'r sgyrsiau'n naturiol - dros baned a chacen gri. Roedd y sesiynau'n ymarferol ac yn ysgogol, ond y peth a'm trawodd fwyaf oedd yr ymdeimlad o bwrpas.

Siaradodd athrawon o wahanol sectorau a rhanbarthau yn agored am heriau, gobeithion a realiti'r proffesiwn. Roedd yn adfywiol bod yn rhan o drafodaethau lle roedd pob llais yn cael ei werthfawrogi.



Yr hyn a arhosodd gyda mi'n hir ar ôl gadael Nant Gwrtheyrn oedd fod datblygiad proffesiynol yn fwy na strategaethau neu bolisïau newydd. Mae hefyd yn bwysig cael cysylltiad a thrafodaethau gydag athrawon o ranbarthau eraill a chymryd yr amser i fyfyrio, gwrando, a theimlo'n rhan o rywbeth sy'n fwy na'ch ystafell ddosbarth eich hun.

Cynigiodd fy nghynhadledd UCAC gyntaf bob un o'r elfennau hynny, wedi'u lapio yng ngwefr lle sy'n eich annog i arafu a meddwl. Gadewais yn teimlo'n egnïol, yn ysgafnach, ac yn falch o fod yn rhan o'r proffesiwn hwn.

# JADE HUDSON

Roeddwn yn falch iawn o gael y cyfle i fynychu am y tro cyntaf, ac fe wnes i wir fwynhau'r profiad.

Doeddwn i ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl cyn cyrraedd, ond cefais groeso hyfryd a phecyn gwybodaeth clir yn cynnwys yr holl gynigion oedd angen eu trafod a gwneud penderfyniadau arnynt.

Roedd y trafodaethau'n berthnasol i bob aelod staff mewn ysgolion a cholegau ar draws Cymru, ac roeddwn yn gobeithio fy mod wedi cynrychioli Rhondda Cynon Taf yn deg wrth bleidleisio ar yr hyn roeddwn yn teimlo oedd yn iawn.

Roedd yn braf cael cyfle i drafod gyda chynrychiolydd arall oedd yno am y tro cyntaf, Bethan, ac roedd y profiad cymdeithasol yn gynnes ac yn gefnogol. Roedd rhai aelodau wedi dewis gwisgo'n fwy smart ar gyfer y cinio gyda'r nos - rhywbeth byddwn i'n sicr yn ei wneud y flwyddyn nesaf! Roedd y bwyd yn fendigedig, a mwynheais wrando ar yr areithiau gan elwa ar y sesiwn yn trafod AI ac addysgu.

Roedd y llety yn braf iawn hefyd, gyda golygfa hyfryd o'r môr. Roedd popeth wedi'i drefnu'n dda, gan gynnwys y brecwast a'r cinio bwffe ar y dydd Sadwrn. Doeddwn i erioed wedi bod i Nant Gwrtheyrn o'r blaen, felly roedd yn gyfle gwych i weld harddwch y lle a dysgu mwy am ei hanes.

Fe fwynheais i'r profiad yn fawr iawn, a byddwn yn annog aelodau eraill yn gryf i ystyried mynychu'r flwyddyn nesaf.

Mae'n gyfle gwych i gyfrannu, mynegi barn, a chwrdd â phobl newydd o bob cwr o Gymru.



Nid pawb oedd yn y Gynhadledd am y tro cyntaf wrth gwrs a braf oedd gweld hen wynebau, yn ogystal ag unigolion a fu'n gyson iawn eu hymweliadau â'r Gynhadledd ond na fu yn y Gynhadledd ers rhai blynyddoedd. Dyna oedd profiad un o Ymddiriedolwyr UCAC, Aeron Rees.

# ARGRAFFIADAU O'R GYNHADLEDD

## AERON REES

I'r sawl sy'n caru'r Gymraeg ac yn frwd dros y Gymraeg mewn Addysg, prin y gellir cael llecyn mwy eiconig na Phen Llŷn a Nant Gwrtheyrn – lleoliad ysbrydoledig ar gyfer cynhadledd 2026.

I mi, roeddwn yn dychwelyd i fwrlwm ac ymryson y gynhadledd wedi bwlch o ddegawd a mwy.Bellach wedi ymddeol, dw i wedi cael y fraint o ddod yn Ymddiriedolwr, a chyfle i gyfrannu unwaith eto at hyrwyddo cenadwri'r Undeb – wedi blynyddoedd hapus fel Ysgrifennydd Sir, Cadeirydd yr Adran Addysg, aelod o'r Cyngor Cenedlaethol ac Is-Lywydd yn yr '80au hwyr hyd at droad y mileniwm. Er yn aelod tan i mi ymddeol yn 2025, aeth fy ngyrfa â fi i ffwrdd o lawr y Dosbarth, ond cefais y pleser o wasanaethu Adran Arweinwyr UCAC rhwng 2006 a 2015.

Ymdeimlad o gyffro, felly, oedd gen i wrth yrru lawr i'r safle – a chwilfrydedd i ganfod a oedd naws y gynhadledd wedi newid dros y blynyddoedd. O'r eiliad gyntaf, daeth cynhesrwydd y croeso a'r naws golegol yn amlwg, adlais clir o gynadleddau'r gorffennol, gyda chyfle i gwrdd â hen ffrindiau, cydweithwyr a chyd-undebwyr. Hyfryd oedd cael bwrw golwg yn ôl a chwerthin a rhyfeddu at hen hanesion. Braf hefyd cyfarfod y to newydd o gynadleddwyr a chael y wefr o'u clywed yn mynegi boddhad dwfn wrth wasanaethu proffesiwn sydd dal yn dod â chryn fwynhad a phleser – er gwaethaf amryfal heriau.

Roedd yn galonogol amgyffred proffesiynoldeb y trafodaethau, mewn awyrgylch hamddenol, ond pwrpasol.Dysgu wedyn am botensial a rhybuddion Deallusrwydd Artiffisial mewn addysg a chael noson hyfryd yng nghwmni aelodau brwdfrydig yng nghinio'r Gynhadledd.



Wrth adael y Nant, ges i'r teimlad cynnes fod yr Undeb dal mewn dwylo sicr, gyda dyhead i annog unrhyw un sydd heb fentro eto i'r gynhadledd flynyddol i ddifrifol ystyried hynny yn 2027.
Bydd y croeso'n wresog iawn.

# HOLIADUR Y GYNHADLEDD

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu wrthi'n ddiwyd yn trefnu'r Gynhadledd ac yn enwedig i Nia a Gwenno.

**I'r rhai hynny ohonoch nad sydd wedi bod mewn cynhadledd o'r blaen, beth am ystyried dod y flwyddyn nesaf?**

## PAM Y DYLECH DDOD?

Dyma rai o'r pethau oedd wedi taro cynadleddwyr 2026:

"SGYRSIAU DIDDOROL A LLEOLIAD GODIDOG"

"SGYRSIAU DIFYR A SIARADWR GWADD ARBENNIG O DDA"

"TRAFODAETHAU ONEST AC AGORED"

"AMSERLEN HWYLUS, LLEOLIAD A CHYFLEUSTERAU DA, GOLYGFEYDD HYFRYD"

"CYFARFOD WYNEBAU CYFARWYDD A WYNEBAU NEWYDD"

"AMSERLEN ADDAS AC AMSERU DA"

# GALW AM YMDDIRIEDOLWYR

Rydym yn awyddus i benodi ymddiriedolwyr newydd i gyfrannu at lywodraethiant yr Undeb. Mae croeso i unrhyw aelod neu gyn-aelod fynegi diddordeb, a'r Cyngor Cenedlaethol fydd yn penodi'n derfynol.

Prif rôl Ymddiriedolwyr UCAC yw llywodraethu a rheoli asedau'r Undeb:

- Gwarchod holl fuddsoddiadau'r Undeb, a derbyn cyngor gan yr ymgynghorwyr ariannol perthnasol
- Bod yn gyfrifol am eiddo'r Undeb, gan sicrhau fod anghenion iechyd a diogelwch yn cael eu diwallu a sicrhau bod yr eiddo yn cael ei gadw'n safonol.
- Sicrhau bod Cynllun Pensiwn UCAC yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac yn gywir gydag arweiniad arbenigwyr.

Mae'n gyfrifoldeb cyffredinol ar yr Ymddiriedolwyr i sicrhau gwytnwch yr Undeb a disgwylir iddynt gyfrannu at drafodaethau yn ymwneud â chyllid a datblygiad UCAC.

Disgwylir i Ymddiriedolwyr fod ar gael i gyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

Disgwylir i ymddiriedolwyr wasanaethu am dymor o dair blynedd, ond mae modd gwasanaethu am sawl tymor yn ddilynol.

Nid oes tâl i'r rôl hon, ond cynigir costau teithio.

Os oes diddordeb gennych i ymgymryd â'r rôl, cysylltwch â Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC ioan@ucac.cymru am sgwrs neu i fynegi diddordeb, gan roi crynodeb o'ch gyrfa ac amlinelliad yn egluro eich diddordeb.

## EISTEDDFOD Y Garreg Las

**Stondin 703**

**PANED** **SGWRS** **GWEFRU FFÔN**

Eleni, bydd torfeydd yn tyrru i Lantwd i'r Eisteddfod Genedlaethol. Os byddwch yn dod i'r Eisteddfod, cofiwch alw draw yn stondin UCAC. Bydd cyfle i chi gael sgwrs gyda rhai o staff UCAC dros baned a chewch wefru eich ffôn neu eich dyfais electronig. Bydd cyfle i chi rannu eich barn am flwydd-ddalen UCAC. Cofiwch rannu eich meddyliau, bydd eich enw yn cael ei roi mewn het a bydd cyfle i chi ennill hamper o nwyddau o Gymru. Cofiwch alw heibio i'n gweld!

## BWRDD GOLYGYDDOL


**Llywydd Cenedlaethol:** Sara Edwards
**Is-Lywydd:** Rhun Llwyd
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones
**Is-ysgrifennydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies
**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies
**Dylunydd:** Gwenno Jones


Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at:


Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU
Ffôn: 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru


Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

## CYFLE I ENNILL HAMPER

Dewch heibio ein stondin yn yr Eisteddfod eleni am gyfle i ennill hamper o fwydydd blasus.



**Stondin: 703**

EISTEDDFOD Y Garreg Las 1-8 Awst 2026

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru